Mae'r Cydlynydd TCC wrthi'n cynhyrchu fframwaith perfformiad sy'n rhoi manylion am y dangosyddion perfformiad allweddol a'r ystadegau a fydd yn cael eu casglu a'u cyhoeddi, yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth. Bu rhywfaint o oedi oherwydd y cyfyngiadau presennol mewn perthynas â COVID-19.

Yn atodiad A ceir rhai astudiaethau achos o'r flwyddyn ddiwethaf lle mae TCC wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Argymhelliad 2: 'Gan gydnabod yr ymrwymiad a ddangosir gan y Comisiynydd i sicrhau, drwy wefan ei swyddfa, cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau cyfathrebu, bod gan aelodau o'r cyhoedd wybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt pe baent yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol, rwy'n argymell adolygu ac archwilio'r gwaith hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o'r fath dal yn effeithiol, hygyrch ac yn hwylus i'r defnyddiwr.'**

Mae SCHTh wedi adolygu'r hyn sydd mewn grym ar hyn o bryd, yn ogystal ag awgrymu sut y medrwn wella ein gohebiaeth o gwmpas y gwasanaeth cymorth hwn.

**Y Sefyllfa Gyfredol:**

Gwefan SCHTh

Mae gwybodaeth am wasanaethau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae tudalen benodol sy'n rhoi manylion am y gwasanaethau cymorth a ariennir gan y Comisiynydd, ac mae'r cyhoedd yn medru cael mynediad ati:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/eich-ardal/gwasanaethau-sydd-ar-gael-i-chi/

Y gwasanaeth cyntaf ar y dudalen yw Goleudy, sy'n cynnig cymorth i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r wefan yn dweud bod *Goleudy hefyd yn darparu gwasanaeth ar gyfer adnabod ac yn rheoli lefel risg ymhlith dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mwyn gwella diogelwch cymunedol, a lleihau'r effaith ar breswylwyr ardal Dyfed-Powys.*

Yn ogystal, mae cyfres o daflenni crynodeb un tudalen newydd eu cyhoeddi ar y dudalen hon, sy'n rhoi manylion allweddol am bob gwasanaeth. Mae taflen gwasanaeth Goleudy'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y gwasanaeth a ddarparwyd;
- Manylion y cytundeb;
- Ystadegau o ran nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- Adborth ar y gwasanaeth; ac, yn bwysig iawn,
- Sut mae'r cyhoedd yn medru cael mynediad i'r gwasanaeth.

Mae'r daflen wedi'i hysgrifennu a'i strwythuro mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'w deall a'i dilyn. Mae'r daflen ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfryngau Cymdeithasol SCHTh – Yr ydym yn aml yn rhoi manylion am y gwasanaethau cymorth comisiwn sydd ar gael ar ein tudalennau Facebook a Twitter.

'Cyswllt Cymunedol' – Mae Cylchlythyr y Comisiynydd, 'Cyswllt Cymunedol', yn aml yn cynnwys erthyglau nodwedd ar wasanaethau a gomisiynir. Ar ôl edrych yn ôl drwy rifynnau llynedd, medrwn gadarnhau bod gwasanaeth Goleudy wedi ymddangos yn rhifynnau Mawrth a Mai 2020.

**Edrych tua'r dyfodol:**

Hyrwyddir y gyfres o daflenni un tudalen ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn rheolaidd ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan newid rhwng y gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu.

Bydd y daflen sy'n benodol ar gyfer gwasanaeth Goleudy'n cael ei chynnwys yn rhifyn nesaf Cylchlythyr y Comisiynydd, 'Cyswllt Cymunedol', ym mis Mawrth 2021. Ar ôl hynny, bydd taflenni pob gwasanaeth a gomisiynir yn ymddangos mewn rhifyn o'r cylchlythyr yn eu tro.

Cynhelir sesiynau Sgwrs Gyda'r Comisiynydd bob wythnos yn gynnar yn 2021, hyd nes bydd y cyfnod cyn yr etholiad yn cychwyn. Bydd darparwyr gwasanaethau a gomisiynir, megis Goleudy, yn cymryd rhan yn y sgyrsiau hyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

## Argymhelliad 3: 'Rwy'n cydnabod pwysigrwydd rôl y Comisiynydd fel corff apelio ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond byddai'n fwy priodol i'r rôl honno gael ei phwysleisio mwy mewn gwaith cyfathrebu, gan atgoffa pobl am eu hawliau a sut i'w harfer.'

Mae SCHTh Dyfed-Powys yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei gwefan mewn perthynas ag apelio yn erbyn canlyniad Sbardun Cymunedol: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/cwynion-a-phryderon/

Fodd bynnag, gofynnwyd i Dîm Ymgysylltu SCHTh ddatblygu'r argymhelliad hwn wrth gynllunio eu gwaith cyfathrebu yn y dyfodol. Yn arbennig, byddwn yn edrych ar dynnu sylw at rôl y Comisiynydd fel corff apelyddol ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â hawliau'r cyhoedd a sut y gellir eu harfer. Datblygir hyn drwy gyfres o negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol (yr ydym eisoes wedi dechrau gweithredu hyn) yn ogystal ag o fewn rhai rhifynnau o gylchlythyr 'Cyswllt Cymunedol' CHTh, ac unrhyw ddatganiadau i'r wasg sy'n cyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Argymhelliad 4: 'Gan gydnabod y gwaith sylweddol sydd eisoes yn cael ei wneud mewn perthynas â'r Sbardun Cymunedol, yr wyf yn argymell bod y Comisiynydd yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r heddlu ac asiantaethau partner er mwyn gwella effeithiolrwydd y Sbardun Cymunedol yn ardal Dyfed-Powys, yn unol ag argymhellion y Comisiynydd Dioddefwyr presennol a'r un diwethaf.'

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, yr ydym wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan y Fonesig Vera Baird CF (Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr) (amlygwyd mewn ffont oren) wrth ymateb i ganllawiau newydd y Swyddfa Gartref:

*"Ydy, mae'n galw ar asiantaethau lleol i roi gwybodaeth ar eu gwefannau ac mewn fformatau hygyrch eraill, er, nid yw'n glir sut y gellid gorfodi hyn. Gwyddom fod llawer yn methu â gwneud hynny."*

Fel rhan o ymgynghori parhaus ac adborth rhwng SCHTh a'r Heddlu, rhoddwyd adborth i Heddlu Dyfed-Powys ar 13 Medi 2020 mewn perthynas â'r pwynt hwn. O ran hygyrchedd, cynghorodd SCHTh yr Heddlu y byddai'n galonogol gweld manylion cyswllt uniongyrchol ar gyfer y Sbardun Cymunedol ar wefan yr Heddlu (a medrwn eu gosod ar wefan SCHTh) h.y. y cyfeiriad a'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'u cynnwys ar ddiwedd y cais. Hefyd, holom pa un ai a fyddai cyfle i aelodau o'r cyhoedd gwblhau'r ffurflen yn electronig ar wefan yr Heddlu. Ar hyn o bryd, yr unig ddewis sydd gennym yw galw 101 a gofyn am gopi o'r ffurflen, fodd bynnag, byddwn yn parhau i archwilio i'r dewis o fersiwn electronig o'r ffurflen gyda'r Heddlu.

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan ar gyfer gwneud cais am Sbardun Cymunedol:
https://www.dyfed-powys.police.uk/cy-GB/cyngor/cyngor-a-gwybodaeth/asb/nw/gofyn-adolygiad-achos-ymddygiad-gwrthgymdeithasol-bardun-cymunedol/;
ar wefan Dewis Cymru:
https://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=23630
ac ar ASB Help: https://asbhelp.co.uk/dyfed-powys/.

Mae SCHTh Dyfed-Powys yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei gwefan mewn perthynas ag apelio yn erbyn canlyniad Sbardun Cymunedol:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/cwynion-a-phryderon/

"Er syndod, nid yw'r canllawiau dal yn rhoi hawl i ddioddefwyr fynychu'n bersonol. Yn hytrach, mae'n sôn am *'… arfer da cael rhywun yn rhan o'r adolygiad achos i gynrychioli'r dioddefydd, megis rhywun o'r gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr ….'*
"A *'Dylid hefyd ystyried pa un ai a yw'n briodol i'r dioddefydd gael ei gwahodd i fod yn bresennol yn yr adolygiad achos …neu, o dan yr amgylchiadau, pa un ai a oes rhesymau da iddynt beidio. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall fod yn fwy priodol gwahodd cynrychiolydd i fod yn bresennol ar ran y dioddefydd.'*
"Sut all lleisiau 'dioddefwyr' gael eu clywed os nad oes hawl ganddynt fod yn bresennol a siarad dros eu hunain hyd yn oed? Ac os yw'r cyfarfod datrysiad yn digwydd tu ôl i ddrysau caeedig, sut all y dioddefydd gael unrhyw ffydd yn y canlyniad?"

Codwyd y mater hwn gan SCHTh ar 13 Medi gan fod dogfennau proses yn awgrymu y byddai'r dioddefydd yn cael gwybod am y canlyniad yn hytrach na bod yn rhan o'r adolygiad. Mae CHTh o'r farn y byddai'n arfer gorau galluogi'r dioddefydd i siarad ar ddechrau adolygiad. Ers hynny, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi nodi'r wybodaeth ganlynol yn y ddogfen 'Canllawiau Gweithredol Sbardun Cymunedol' mewn perthynas â phresenoldeb dioddefwyr yn y gwrandawiad: *"Lle'r ydym yn ystyried ei fod yn briodol neu'n ddichonadwy, a lle mae'r ceisydd yn cydsynio, bydd y ceisydd neu'r eiriolydd yn cael cyfle i fynychu/ymuno â dechrau'r adolygiad er mwyn annerch y panel a chyflwyno ei ddisgwyliadau/datganiad effaith. Pe na bai'r ceisydd eisiau ymuno â dechrau'r adolygiad, caiff gyfle i gyflwyno ei ddatganiad effaith a'i ddisgwyliadau 7 diwrnod cyn yr adolygiad i'w rhannu â'r panel. Mae'n bosibl y gwahoddir swyddog(ion) ymchwilio i gyflwyno'r achos a darparu gwybodaeth achos. Y Cadeirydd fydd y gwneuthurwr penderfyniadau."*

*"O safbwynt her annibynnol, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymatal rhag mynnu cadeiryddion annibynnol ar gyfer y cyfarfodydd. Yn hytrach, terfyn yr uchelgais yw: 'Lle mae'r rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr asiantaeth wedi bod yn rhan o achos penodol, dylid ystyried cynnwys rhywun annibynnol yn yr adolygiad er mwyn darparu safbwynt newydd neu allanol ar yr achos a'r camau gweithredu a gymerwyd."*
*"Mae'r gwrandawiad ond wedi'i alw oherwydd mae'r dioddefydd wedi gwneud sawl cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn teimlo nad yw'r*

*mater wedi'i drin yn llwyddiannus. Gan hynny, rhaid bod angen 'safbwynt newydd' ar bob achos."*
*"I ormod o bobl, mae hunllef ymddygiad gwrthgymdeithasol dal yn difetha eu bywydau ac maen nhw'n teimlo nad oes neb yn gwrando. Yn anffodus, nid wyf yn credu bydd y canllawiau hyn yn cynnig llawer o gysur iddynt."*

O fewn y ddogfen 'Canllawiau Gweithredol Sbardun Cymunedol', mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r Panel:

*"Bydd yr Uned Lleihau Trosedd a Niwed yn ymgysylltu â'r Arolygydd Partneriaethau ar gyfer galw panel adolygu.*

*Lle bo'n bosibl, disgwylir i o leiaf tri chynrychiolydd o bob awdurdod cyfrifol gymryd rhan yn yr adolygiad achos.*

*Pan fydd y trothwy wedi'i fodloni, bydd yr Uned Lleihau Trosedd a Niwed yn cynghori'r ceisydd yn ysgrifenedig (gweler Atodiad H). Darperir manylion am y pwynt cyswllt, y Cadeirydd ac aelodau'r panel. Hefyd, byddant yn cael gwybodaeth am gamau nesaf y broses. Er nad oes unrhyw reidrwydd iddo wneud hynny, gofynnir i'r ceisydd baratoi datganiad effaith, sy'n gyfle i amlinellu ei ddisgwyliadau o'r broses.*

*Dylai'r panel gynnwys cyfuniad o'r canlynol:*

- *Arolygydd Partneriaethau neu Arolygydd lleol*
- *Rhingyll Plismona Bro*
- *Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Rhanbarthol*
- *Rheolwr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol*
- *Darparwr Tai Cymdeithasol (lefel reoli berthnasol)*
- *Adrannau o fewn yr Awdurdod Lleol, h.y. Iechyd yr Amgylchedd, y Gwasanaethau Cymdeithasol (lefel reoli berthnasol lle bo'n bosibl).*
- *Y Bwrdd Iechyd Lleol*
- *Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (lle bo angen)*
- *Y Gwasanaeth Tân (lle bo angen)*
- *Y Gwasanaeth Ambiwlans (lle bo angen)*
- *Iechyd Meddwl (lle bo angen)*
- *Gofal Cymdeithasol (lle bo angen)*
- *Y Gwasanaeth Prawf (lle bo angen)*

*Os oes cwyn swyddogol wedi'i gwneud yn erbyn unrhyw un o'r aelodau panel, gwneir pob ymdrech i gael rhywun â phrofiad cyfwerth, neu rywun*

*o’r un lefel reoli, o fewn yr asiantaeth honno yn ei le. Lle nad yw hyn yn bosibl, ystyrir gwneud cais am Gadeirydd annibynnol. Gall hyn arwain at ddewis Cadeirydd y tu allan i ardal Dyfed-Powys. Sicrheir cydsyniad y ceisydd.”*

Yn ddiweddar, canmolwyd gwaith Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yr Heddlu gan Brif Weithredwr ASB Help mewn cyfarfod gyda’r Comisiynydd Dioddefwyr, a chanmolodd y gwaith caled a’r ymrwymiad tuag at ddatblygu prosesau a pholisïau’r Heddlu. Mewn perthynas ag ASB Help, cynhwysir y logo hwn ar dudalen flaen y ddogfen Canllawiau Gweithredol Sbardun Cymunedol ar gyfer yr Heddlu, gan fod yr Heddlu wedi cofrestru ar gyfer yr Addewid Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn unol ag ASB Help, sy’n sicrhau fod gan yr Heddlu’r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaethau ac ati.

## Atodiad A

Isod, ceir rhai astudiaethau achos o'r flwyddyn ddiwethaf lle mae TCC wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Llanelli – Defnyddio cyffuriau

Mae gweithredwyr TCC, ar y cyd â Thimoedd Plismona Bro a'r Adran Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth, wedi nodi defnyddwyr cyffuriau adnabyddus yn ymgasglu yng nghanol tref Llanelli. Yn dilyn arsylwadau, mae gweithredwyr TCC wedi nodi cyffuriau'n cael eu defnyddio a'u gwerthu ac wedi anfon swyddogion i chwilio'r unigolion hyn sawl gwaith. Mae camerâu TCC hefyd wedi'u symud yn strategol, mewn ymgynghoriad â Thîm Plismona Bro Llanelli, er mwyn monitro ardaloedd penodol lle y gwyddir fod cyffuriau'n cael eu cymryd. Drwy gydweithio, mae hyn wedi arwain at sawl unigolyn yn cael ei stopio a'i chwilio oherwydd amheuaeth fod cyffuriau'n cael eu defnyddio, gan aflonyddu ar ddefnyddio a gwerthu cyffuriau yng nghanol tref Llanelli.

Hwlffordd

Mae gweithredwyr TCC wedi defnyddio'r camerâu TCC o gwmpas y maes parcio aml-lawr yn Hwlffordd er mwyn monitro a thargedu ymddygiad gwrthgymdeithasol yno'n rhagweithiol. Mae'r heddlu wedi derbyn nifer o alwadau am wasanaeth mewn perthynas â phobl ifainc yn ymgasglu, y defnydd o gyffuriau ac alcohol, a dychrynu/cam-drin y cyhoedd yn eiriol. Drwy weithio gyda'r Tîm Plismona Bro, mae gweithredwyr TCC wedi llwyddo i fonitro a nodi unigolion penodol cysylltiedig, anfon swyddogion i'r lleoliad yn rhagweithiol, a chasglu cudd-wybodaeth.

Cardota proffesiynol – Ledled yr heddlu

Mae gweithredwyr TCC wedi adnabod cardotwyr proffesiynol yng nghanol ein trefi. Drwy anfon swyddogion at y bobl hyn, mae'r heddlu wedi aflonyddu ar eu gweithgarwch, sydd wedi arwain atynt yn symud o Rydaman i Aberteifi

ac yna i Hwlffordd. Drwy adnabod yr un unigolion hyn ym mhob tref, casglwyd llawer o gudd-wybodaeth werthfawr.

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig – Y Trallwng a Doc Penfro

Mae camerâu TCC wedi'u symud er mwyn cynorthwyo i ddatrys ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi targedu cyfeiriadau cartref troseddwyr rhyw cofrestredig. Bu nifer o alwadau mewn perthynas â dau gyfeiriad penodol yn y Trallwng a Doc Penfro (nid oes cysylltiad rhyngddynt) o gwmpas aflonyddu ac ati.

Protestiadau

Mae gweithredwyr TCC wedi monitro nifer o brotestiadau ledled yr ardal heddlu, gan gynnwys protestiadau Bywydau Du o Bwys, Gwrthryfel Difodiant a gwersyll mewnfudwyr Penalun. Drwy'r defnydd o deledu cylch cyfyng, cafodd y protestiadau eu monitro'n llwyddiannus yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu, gan roi delweddau amser real i gomanderiaid yr heddlu a'r gangen arbennig.

**Crynodeb**

Rhai ffigurau amlwg ychwanegol o 2020:

- Mae swyddogion wedi lawrlwytho darnau ffilm 1892 o weithiau
- Daethpwyd o hyd i 32 unigolyn o ganlyniad uniongyrchol i ymholiadau TCC
- Tagiwyd cyfanswm o 5087 digwyddiad gan weithredwyr TCC ar gyfer monitro amser byw
- Bu gostyngiad o 35.95% yn nifer y troseddau o fewn 100 medr i bob safle camera ledled yr ardal heddlu
    - Sir Gaerfyrddin – gostyngiad o 28.97%
    - Ceredigion - gostyngiad o 40.85%
    - Sir Benfro – gostyngiad o 50.57%
    - Powys – gostyngiad o 34.63%

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**19 CHWEFROR 2021**

| |
|---|
| **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR YMATEB I'R PANDEMIG CORONAFEIRWS** |
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br><br>1. Craffu ar berfformiad y Comisiynydd<br>2. Gwneud argymhellion i'r Comisiynydd fel y gwêl y Panel yn briodol |
| **Y Rhesymau:**<br>Mae'r pandemig Coronafeirws (COVID) wedi cael effaith weithredol ac ariannol sylweddol nid yn unig ar Heddlu Dyfed-Powys ond hefyd ar y gwasanaethau a'r swyddogaethau eraill nad ydynt yn rhan o'r heddlu ond mae'r Comisiynydd yn gyfrifol amdanynt |

| Awdur yr Adroddiad: | Swyddi: | Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| R J Edgecombe | Swyddog Arweiniol i'r Panel | rjedgeco@sirgar.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
## 19TH FEBRUARY 2021

# UPDATE ON THE RESPONSE TO THE CORONAVIRUS PANDEMIC

The Coronavirus (COVID) pandemic has had a significant operational and financial impact not only upon Dyfed-Powys Police but also other non-police services and functions for which the Commissioner is responsible.

The Commissioner has previously provided information to the Panel regarding the impact of the pandemic. The attached report sets out the up to date position.

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **YES** |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**

**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)*

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| **Host Authority File** | **PACP020** | **County Hall Carmarthen** |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Adroddiad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Diweddariad ar yr Ymateb i Bandemig y Coronafeirws (COVID-19), Chwefror 2021**

| **Statws fel yr adroddwyd ar 14 Hydref 2020** | **Diweddariad ar 8 Chwefror 2021** |
|---|---|
| **Sicrhau Adnoddau**<br>*Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl ddigon o adnoddau i ymateb i ac adfer wedi'r argyfwng* | |
| 1. Mae gwariant yr heddlu dal yn cael ei effeithio gan y pandemig COVID-19, gyda chostau ychwanegol a cholledion sylweddol yn cael eu profi o fis Ebrill i fis Medi. Mae'r posibilrwydd o gyfnod cyfyngiadau symud uwch wedi golygu bod angen tybiaethau mwy pesimistaidd o gwmpas colledion incwm. Mae gwariant mewn nifer o feysydd megis hyfforddiant, trafnidiaeth breifat a chynadleddau dal yn dangos rhai arbedion, ac o ystyried y trefniadau gweithio newydd, ymddengys y bydd y rhain yn parhau am gyfnod hirach.<br>2. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bodloni holl gostau cyfarpar diogelu personol safon feddygol a brynwyd gan yr heddlu, ac mae cais ar gyfer £347,000 wedi'i | 1. Mae gwariant yr heddlu dal yn cael ei effeithio gan y pandemig COVID-19. Profwyd colledion mewn incwm a chostau ychwanegol sylweddol drwy gydol y flwyddyn hyd yn hyn. Mae rhai arbedion yn erbyn penawdau megis llungopïo, cynadleddau, tanwydd, lluniaeth ac ati, sy'n gysylltiedig â chyfnodau cyfyngiadau symud. Cynhwyswyd gofynion hyfforddi yr oedd angen gohirio oherwydd y pandemig yn y gyllideb ar gyfer 2021/2, a disgwylir tanwariant net o £389,000 ar hyn o bryd yn erbyn penawdau hyfforddi.<br>2. Rhagdybiodd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol gyfraniad o £703,000 o gronfeydd wrth gefn. Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, sef 2021/22, mae'r heddlu'n ceisio rheoli tanwariant yn y flwyddyn gyfredol sy'n golygu na fydd angen y trosglwyddiad hwn, ac fel bod modd cario £750,000 ymlaen fel cronfa wrth gefn ar |

| | |
|---|---|
| gyflwyno. Mae cyflenwadau cyfarpar diogelu personol pellach yn cael eu ceisio drwy drefniadau caffael canolog heb unrhyw gost i’r heddlu.<br>3. Mewn llythyr a dderbyniwyd ar 8 Hydref, nododd y Gweinidog Plismona ddau grant newydd:<br>a. £30 miliwn o gyllid ymchwydd ar gyfer mwy o orfodi COVID-19 gyda disgwyliad y bydd yr heddlu’n gorfodi cyfyngiadau COVID-19 yn syth, yn amlwg ac yn genedlaethol. Bydd HDP yn derbyn £212,000 a bydd cynlluniau’n cael eu cyflwyno erbyn 23 Hydref.<br>b. Cynllun adfer colledion incwm ar gyfer CHTh ar gyfer 2020/21 sy’n cydnabod yr incwm a gollwyd ar daliadau, ffioedd a gwerthiannau disgwyliedig o ganlyniad i’r pandemig. Bydd hyn yn galluogi heddluoedd i adennill 75c ym mhob £1 o incwm a gollwyd unwaith y bydd didyniad o 5% wedi’i amsugno gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn asesu colledion cymwys ac oblygiadau ariannol canlyniadol.<br>4. Yn unol â’r diweddariad blaenorol, mae lefelau staffio’r heddlu wedi aros yn gyson, gyda lefelau dyletswyddau eraill yn aros ar statws gwyrdd ar gyfer y cyfnod. Ystyrir fod | ddiwedd y flwyddyn. Bydd angen hyn er mwyn mantoli gwariant untro y flwyddyn nesaf ar gyfer Penalun, hyfforddiant a cholledion incwm sy’n gysylltiedig â COVID-19.<br>3. Yn ogystal â’r ad-daliad ar gyfer yr holl gostau ar gyfer cyfarpar diogelu personol o safon feddygol a brynwyd, mae’r heddlu hefyd wedi derbyn cyllid ymchwydd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gweithgarwch gorfodi ychwanegol o £212,000. Tybir y bydd yn cael ei gyfateb yn llawn gan wariant ychwanegol. Yn seiliedig ar batrymau gwario cyfredol, mae’n annhebygol y bydd yr heddlu’n defnyddio’r dyraniad llawn ac efallai bydd angen cario unrhyw arian sydd heb ei wario drosodd. Yn amlwg, mae hyn yn agored i newid.<br>4. Mae’r rhagamcaniad hefyd yn cynnwys y grant sydd ar gael mewn perthynas â cholledion incwm a ddioddefwyd, ac mae swm amcangyfrifol o £180,000 wedi’i amcangyfrif fel y swm adferadwy o dan y cynllun erbyn diwedd y flwyddyn. Am y 4 mis cyntaf, ariannwyd holl elfennau’r hawl a gyflwynwyd, gan gynnwys colledion a brofwyd mewn perthynas â’r gost o adfer y Bartneriaeth Lleihau Cyflymder, GanBwyll, a oedd mewn perygl. Ar hyn o bryd, rhagdybir y gall y Bartneriaeth amsugno colledion incwm drwy gronfeydd wrth gefn a gostyngiadau cost heb i unrhyw golledion incwm syrthio ar heddluoedd - ac ar hyn o bryd, ymddengys mai felly y mae pethau.<br>5. Mae lefelau staffio’r heddlu’n parhau’n gyson, gyda chyfartaledd o 3.71% o amser dyletswydd yn cael ei |

| | |
|---|---|
| gwasanaethau plismona'n normal, ond mae cynlluniau mewn grym ar gyfer ymdrin ag unrhyw amrywiad. Mae lefelau trosedd a mewnbwn dalfa'n dychwelyd i 'normal' h.y. yn gymharol â'r un cyfnod y llynedd.<br>5. Mae'r Adran Ystadau'n gweithio'n agos â'r Heddlu a chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod yr holl reoliadau gofynnol mewn grym. Mae staff anweithredol dal yn gweithio gartref yn bennaf, oni bai nad yw eu rôl yn caniatáu hynny, neu yn unol â chytundeb â'u rheolwyr llinell. Mae lefelau stoc deunydd gofynnol a chyfarpar diogelu personol yn cael eu cynnal / rheoli.<br>a. Mae campws Pencadlys yr Heddlu'n cael ei ddefnyddio ar gyfer derbyniadau staff yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant, ac mae'r Tîm Ystadau wedi bod yn gweithio'n galed i addasu lleoedd a chyflawni arae o symudiadau er mwyn darparu ar gyfer yr angen gweithredol.<br>b. Mae darpariaeth glanhau a glanhau dwys yn ôl yr angen yn parhau, ac rydyn ni'n parhau i archwilio a dilysu'r safonau drwy gydol y pandemig.<br>c. Mae darpariaethau dalfa o safbwynt sgrinio ac unrhyw reoliadau ychwanegol wedi'u cefnogi ymhellach gan y tîm, ac adnoddau ychwanegol wedi'u pennu yn ôl yr angen. | golli rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Mae nifer fawr o'r absenoldebau hynny o ganlyniad i'r angen ar gyfer hunan-ynysu yn dilyn cysylltiad ag unigolion sydd wedi profi'n bositif ar gyfer COVID-19. Ar hyn o bryd, mae Heddlu De Cymru'n ymgymryd â chynllun peilot profion llif ochrol. Os yw hyn yn llwyddiannus, bydd yn cael ei gyflwyno i heddluoedd eraill yng Nghymru, ac fe ddylai gynorthwyo â'r mater hwn.<br>6. Cyfleuster Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i ddarparu arwahanu gan leihau traws-halogiad rhwng timoedd, a thrwy hynny, gwella cadernid. Mae'r prosiect hwn, a gyflwynwyd gan y Tîm Ystadau, wedi darparu amgylchedd swyddfa cadarn ar gyfer gweithrediad Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wrth symud ymlaen, gan ddarparu ar gyfer gwelliannau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol i'r ffordd y bydd y timoedd yn gweithredu.<br>7. Mae cyfarfodydd Aur Ymgyrch Talla'r heddlu dal yn cael eu cynnal bob pythefnos, a chyfarfodydd Arian yn cael eu cynnal yn wythnosol. Mae Pennaeth Staff SCHTh yn eistedd ar y grŵp Aur, ac mae cynrychiolaeth o SCHTh ar y grŵp Arian. Mae Tîm Gweithredol SCHTh yn cael gwybod am elfennau allweddol. Ymhellach i hyn, mae COVID-19 dal yn eitem agenda sefydlog ar agenda'r Bwrdd Plismona, a rhoddir gwybodaeth am ymateb yr heddlu i'r pandemig a'i gynlluniau adfer dilynol.<br>8. Mae CHTh dal yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion a gweinidogion Llywodraethau Cymru |

| | |
|---|---|
| d. Mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n derbyn buddsoddiad er mwyn diogelu'r gallu i ddarparu arwahanu ar gyfer y dyfodol, gan leihau traws-halogiad rhwng timoedd, a thrwy hynny, cynyddu cadernid. Bydd y prosiect hwn, a gyflwynir gan y Tîm Ystadau, yn darparu amgylchedd swyddfa cadarn ar gyfer gweithrediadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wrth symud ymlaen, gan ddarparu ar gyfer gwelliannau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol i'r ffordd y bydd y timoedd yn gweithredu.<br>e. Cyfnerthwyd SCHTh ym Mhencadlys yr Heddlu ar gyfer cynnig amgylchedd swyddfa pellach i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn caniatáu i'w hymgyrch sicrhau gwell ymbellhau cymdeithasol yn y swyddfa a chynyddu eu gallu staffio.<br>6. Yn ystod yr haf, a'r sefyllfa well bryd hynny mewn perthynas â COVID-19, llaciwyd trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, yn ystod wythnosau diweddar, mae cyfarfod Grŵp Aur Ymgyrch Talla yr Heddlu wedi ailgychwyn ar sail bythefnosol. Mae Pennaeth Staff SCHTh yn rhan o'r cyfarfod hwn ac yn bwydo'n ôl i Dîm Gweithredol SCHTh.<br>7. Mae CHTh wedi trosglwyddo Cadeiryddiaeth y Grŵp Plismona yng Nghymru i Gomisiynydd | a'r DU, a bu'n lobïo'n rhagweithiol dros frechu swyddogion a staff rheng flaen yr heddlu. |

| | |
|---|---|
| Heddlu a Throseddu De Cymru, ond mae'n dal i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru, gyda chyfarfodydd pythefnosol wedi'u trefnu a diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi drwy'r Uned Cyswllt Heddlu. Mae cyfarfodydd rheolaidd hefyd wedi'u trefnu gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a gweinidogion Llywodraeth y DU. | |
| **Dal i Gyfrif**<br>*Sicrhau, ar ran y cyhoedd, bod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, yn ddigonol, yn gymesur ac yn foesegol* | |
| 1. Nid yw'r Heddlu'n cyhoeddi'r Crynodeb Troseddau a Digwyddiadau Wythnosol mwyach, ond mae gan staff SCHTh fynediad at ddata trosedd amser byw, data Hysbysiadau Cosb Benodedig COVID-19, a data salwch swyddogion a staff er mwyn monitro tueddiadau a lefelau perfformiad.<br>2. Mae CHTh dal yn cynnal goruchwyliaeth o ddata perfformiad heddlu allweddol drwy ddiweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd.<br>3. Mae cysylltiad y cyhoedd o ran datblygu blaenoriaethau Heddlu a Throseddu newydd yn cael ei gynllunio gan staff SCHTh ac arweinydd adfer yr Heddlu.<br>4. Mae cofnodion dalfa dal yn cael eu hadolygu bob yn ail wythnos, gyda 121 o gofnodion wedi'u hadolygu ers mis Ebrill. Cyflwynwyd | 1. Mae staff SCHTh yn parhau i fonitro data perfformiad yr heddlu drwy fynediad at ddata byw.<br>2. Yn ogystal â pharhad y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, mae'r Heddlu wedi derbyn adolygiad yn ddiweddar o'i strwythur llywodraethu, ac wedi ailsefydlu ei rhythm rheolaidd o gyfarfodydd llywodraethu. Mae'r rhain yn rhoi mewnwelediadau hollbwysig i staff y Comisiynydd i bob agwedd o fusnes yr heddlu, gan alluogi atebolrwydd yn y fan a'r lle, cyfleoedd ar gyfer casglu gwybodaeth a dadansoddi cyfaill beirniadol fel bod y Comisiynydd yn cael gwybod am ddatblygiadau a risgiau allweddol.<br>3. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau partner ymchwil er mwyn cefnogi ymgynghori cyhoeddus o gwmpas datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf. Cynhaliwyd sesiwn gwmpasu gychwynnol gyda charfan fechan o bersonél yr heddlu er mwyn |

| | |
|---|---|
| galwadau ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd o 17 Awst, gan roi cyfle i garcharorion siarad yn uniongyrchol ag Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd am eu triniaeth yn y ddalfa. Ar 5 Hydref, cyflwynwyd cymysgedd o alwadau ac ymweliadau corfforol, gydag Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn derbyn cyfarpar diogelu personol llawn wrth ymweld â dalfeydd. Bydd yr ymagwedd hon yn cael ei hadolygu'n gyson wrth i lefelau haint newid. Mae gan y cynllun statudol hwn hyblygrwydd a chadernid yn awr i barhau er waethaf unrhyw gyfyngiadau yn y dyfodol.<br>5. Bu gostyngiad sylweddol o ran gohebiaeth y mae SCHTh yn derbyn mewn perthynas â COVID-19. Mae SCHTh wedi derbyn ac ymateb i 4 eitem unigol arall o ohebiaeth sy'n ymwneud â COVID-19 (15 Gorffennaf i 14 Hydref). | trafod yr ymagwedd arfaethedig ac ystyriaethau allweddol ar gyfer y tymor newydd.<br>4. Ers mis Ionawr 2021, mae cofnodion dalfa yn cael eu hadolygu'n fisol yn hytrach na phob pythefnos. Mae nifer y cofnodion sy'n cael eu hadolygu'n parhau'r un fath. Mae 54 cofnod wedi'u hadolygu ers 14 Hydref. Cyflwynwyd cymysgedd o alwadau ffôn a galwadau corfforol ar 5 Hydref, fodd bynnag, ers 21 Rhagfyr, dim ond galwadau ffôn sydd wedi'u cynnal oherwydd y cyfyngiadau presennol.<br>5. Bu cynnydd o ran yr ohebiaeth y mae SCHTh yn derbyn mewn perthynas â COVID-19. Rhwng 15 Hydref 2020 a 5 Chwefror 2021, mae SCHTh wedi derbyn ac ymateb i 46 darn o ohebiaeth unigol sy'n ymwneud â COVID-19. |
| **Gwella'r Ddarpariaeth**<br>*Hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol ymhlith asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol* | |
| 1. Mae'r BCTLl dal yn cwrdd yn rhithwir, gyda chysylltiad cadarnhaol gan bob partner. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar COVID-19, mae'r Bwrdd wedi dychwelyd i'r un hen rigol ar gyfer cyfarfod mis Hydref, | 1. Yn ddiweddar, cynhaliodd y BCTLl weithdy er mwyn cysoni meysydd blaenoriaeth â rhai'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i gryfhau trefniadau gweithio. Mae meysydd blaenoriaeth yn |

| | |
|---|---|
| gyda ffocws ar Reoli Troseddwyr (Rheoli Troseddwyr yn Integredig ac atal ieuenctid). Cafwyd trafodaethau cadarnhaol iawn, a chytunwyd ar gamau gweithredu i ymgymryd â gwaith craffu pellach yn y maes hwn.<br>2. Mae'r grŵp adfer BCTLl wedi cwrdd bob yn ail wythnos, ac wedi cyflwyno canlyniadau cadarnhaol ar gyfer llysoedd Ynadon, gydag ardal DP yn un o'r ardaloedd cyntaf yng Nghymru i ymdrin â'r ôl-groniad COVID-19. Mae'r grŵp dal yn cwrdd yn fisol er mwyn trafod cynnydd â Llysoedd y Goron.<br>3. Mae'r BCTLl yn parhau i ddwysau materion a thynnu sylw at gynnydd lleol o ran strwythurau CT.<br>4. Mae SCHTh dal yn bwydo i mewn i nifer o drafodaethau Cymru Gyfan a thrafodaethau Cymru a Lloegr, gan gynnwys menywod sy'n troseddu, ac mae'n parhau i gynrychioli Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru wrth arwain ar lywodraethu gwaith y Gwasanaeth Atal Troseddau Ieuenctid ar lefel genedlaethol.<br>5. Yn dilyn cymeradwyaeth o'r argymhellion gan y Prosiect Gwella Plismona yn y Bwrdd Plismona ym mis Medi, bydd SCHTh yn gweithio gyda chynrychiolwyr yr Heddlu i ddatblygu'r camau allweddol sydd angen.<br>6. Mae trafodaethau'n parhau gydag arweinwyr Diogelwch Cymunedol, yn enwedig er mwyn | cynnwys Dioddefwyr a Thystion, Pobl sy'n Troseddu ac Ymyrraeth Gynnar ac Atal.<br>2. Mae grŵp adfer y BCTLl yn parhau i gwrdd yn fisol er mwyn trafod cynnydd gyda Llysoedd y Goron a Llysoedd Ynadon.<br>3. Mae CHTh dal yn cwrdd â rheolwyr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a rheolwyr y Tîm Troseddau Ieuenctid bob chwarter er mwyn mynd i'r afael â phryderon sy'n codi oherwydd y pandemig a derbyn diweddariadau ynghylch cyflenwi prosiectau a ariennir gan y CHTh.<br>4. Mae CHTh yn parhau i sicrhau ymagwedd bartneriaeth tuag at atal ac ymyrraeth gynnar, gan gynnwys cysoni gweithgareddau'r Bwrdd Cynllunio Ardal â'r Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig er mwyn atal dyblygu nawdd.<br>5. Ymdriniwyd ag argymhellion allweddol o'r adolygiad craffu dwys o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl a'r adolygiad annibynnol o wasanaethau dioddefwyr a'u cynnwys mewn eitemau sefydlog o fewn strwythurau cyfarfodydd.<br>6. Daeth y rhan fwyaf o heddluoedd ag arolygon bodlonrwydd dioddefwyr i ben yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud oherwydd y perygl uwch o gysylltu â dioddefwyr cam-drin domestig o ran y posibilrwydd bod troseddwyr yn byw yn yr un eiddo. Dewisodd rhai ailgychwyn yr arolygon am gyfnod byr pan godwyd y cyfyngiadau symud, ond maen nhw wedi'u hatal eto yn awr oherwydd y cyfyngiadau diweddaraf. Gohiriwyd rhai HDP ym mis Mawrth 2020, ac awdurdododd SCHTh symud yr |

monitro tensiynau cymunedol a mynd i’r afael â nhw ar ôl i geiswyr lloches ddod i Benalun.

7. Mae’r Pennaeth Staff nawr yn cadeirio Grŵp Bodlonrwydd Defnyddwyr Cymru Gyfan, sy’n canolbwyntio ar ddatblygu ymagwedd gyson tuag at arolygu dioddefwyr lle bo’n briodol. I gychwyn, bydd y ffocws ar yr arolwg Dioddefwyr Trais Domestig a phrosesau cefnogol.
8. Mae Cylch Gorchwyl ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr trosedd wedi’i gymeradwyo gan y BCTLl. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein cyn hir. Mae’r gwaith o ymgysylltu â’r rhai sydd wedi’u heffeithio gan drosedd wedi cychwyn. Roedd y gweithgarwch ymgysylltu cyntaf yn gofyn am adborth ar y Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Dioddefwyr, sydd wedi’i ddiweddaru. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu pellach a hyrwyddo’r Fforwm er mwyn denu cyfranogiad ychwanegol.

ymchwilydd ffôn a ariennir gan y CHTh i wasanaeth Goleudy oherwydd y pwysau cynyddol ar y gwasanaeth hwnnw o ganlyniad i’r cyfyngiadau symud ar gyfer dioddefwyr ac ôl-groniadau llys ar gyfer timoedd gofal tystion. Mae’r trefniant hyn wedi parhau, gan sicrhau bod yr arian a ddarperir gan y CHTh yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau dioddefwyr yn unol â’r blaenoriaethau cyfredol. Mae’r sefyllfa’n cael ei hadolygu bob tri mis, a bydd yn cael ei hailasesu unwaith y bydd modd ailgychwyn arolygu. Yn y cyfamser, mae SCHTh wedi gofyn i’r heddlu, yn unol â meysydd eraill, archwilio’r potensial ar gyfer anfon arolygon drwy e-bost at ddioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys pwyntiau gadael diogel.

7. Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr bellach ar gael ar wefan CHTh, ac mae 60 unigolyn wedi’u hymrestru ar hyn o bryd. O ganlyniad i’r adborth a dderbyniwyd gan y grŵp a Phanel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd mewn perthynas â’r Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Dioddefwyr, cyflwynwyd nifer o argymhellion i’r heddlu. Arweiniodd hyn at sefydlu Gweithgor ar gyfer adolygu’r pecyn. Mae aelodau’r fforwm yn cael eu cynnwys fwyfwy yng ngwaith SCHTh, gan gynnwys ymarfer tebyg mewn perthynas â Throseddau Casineb a’r broses Cyfiawnder Troseddol, Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ac adborth er mwyn gwella hyfforddiant ar gyfer swyddogion a staff. Mae cyfleoedd pellach sy’n cael eu hystyried

| | |
|---|---|
| | yn cynnwys effaith COVID-19 ar wasanaethau dioddefwyr a phrosiect cyflawn HDP. |
| **Diogelwch Cymunedol a Lleihau Troseddu**<br>*Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr troseddau, a darparu grantiau at ddibenion plismona a lleihau troseddau* | |
| 1. Mae gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu dal yn darparu data galw pythefnosol drwy SCHTh ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rhoddwyd y dychweliad canol blwyddyn i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Hydref. Yr oedd yn adrodd ar yr holl wasanaethau a gyflwynir a'r hyn a gyflawnwyd drwy'r £140,000 ychwanegol.<br>2. Mae'r Cyfarwyddwr Comisiynu'n parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â rheolwyr gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu. Mae CHTh hefyd wedi rhoi neges o ddiolch i bob gweithiwr rheng flaen.<br>3. Derbyniwyd cadarnhad wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder am arian ymgodi ar gyfer darpariaeth Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, sydd gyfystyr â £63,000 y flwyddyn (yn ôl cyfran ar gyfer 2020/21) am gyfnod o 2 flynedd.<br>4. Mae gwasanaethau'n adrodd am lefelau galw heriol drwy'r cyfyngiadau symud lleol. Mae Goleudy'n profi effaith sylweddol yn arbennig oherwydd oedi sy'n parhau o ran y llysoedd. Mae'r Cyfarwyddwr Comisiynu dal yn mynd i'r | 1. Mae gwasanaethau comisiwn dal yn rhoi data galw i SCHTh bob pythefnos. Sicrhawyd buddsoddiad ychwanegol o dros £190,000 ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr trais rhywiol a domestig.<br>2. Mae rhai gwasanaethau comisiwn wedi'u cynnwys yn yr eitemau Sgwrs Gyda'r Comisiynydd, ac mae pob gwasanaeth yn cael ei gynnwys mewn gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth.<br>3. Ar hyn o bryd, mae ymgodiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer darpariaeth Ymgynghorwyr Annibynnol Trais Rhywiol yn darparu Ymgynghorydd Annibynnol Trais Rhywiol Ymgysylltu Cymunedol sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddioddefwyr hŷn a'r rhai mewn ardaloedd gwledig.<br>4. Mae lefelau galw heriol yn parhau o fewn gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu.<br>5. Cyfathrebir yn barhaus â derbynwyr grant er mwyn sicrhau bod cyflenwi eu prosiectau'n ffitio o gwmpas y sefyllfa bresennol, a bod unrhyw lithriad rhag cyflenwi'n cael ei drafod a'i wrthweithio. |

| | |
|---|---|
| afael â hyn gyda rheolwyr gwasanaeth a phartneriaid.<br>5. Mae'r gwasanaethau a ariannwyd yn flaenorol gan grant dal yn cael eu cefnogi er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cyflenwi o gwmpas y sefyllfa bresennol. | |
| **Cyswllt Lleol**<br>*Sicrhau bod gan drigolion a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall sut y mae eu gwasanaeth yn perfformio* | |
| 1. Mis Medi oedd y tro diwethaf i'r Fforwm Ieuenctid gwrdd. Mae sawl Llysgennad Ifanc wedi sefyll i lawer er mwyn canolbwyntio ar astudiaethau addysgol, felly rydyn ni'n recriwtio aelodau ychwanegol yn ystod mis Hydref, ac yn diweddaru Llawlyfr y Fforwm Ieuenctid. Gohiriwyd y cyfarfod fforwm a oedd wedi'i drefnu yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref. Yn hytrach, cynhaliwyd gweminar ar Droseddau Casineb mewn perthynas â Chymorth i Ddioddefwyr a Chyngor Hil Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ymysg pobl ifainc.<br>Cynhelir cyfarfod o'r gweithgor 'Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol' ym mis Hydref er mwyn trafod gwaith ymgysylltu â phobl ifainc SCHTh gyda phartneriaid a sefydliadau | 1. Yn dilyn ymgyrch recriwtio fis Hydref, ymunodd 7 Llysgennad Ifanc newydd â Fforwm Ieuenctid CHTh, gan ddwyn cyfanswm yr aelodaeth i 13. Ar hyn o bryd, mae'r Llysgenhadon yn gweithio i gynhyrchu ffilm fer er mwyn rhannu profiadau pobl ifainc o gyswllt â'r heddlu. Bydd y ffilm yn cael ei chynnwys yn y rhaglenni hyfforddi ar gyfer swyddogion heddlu. Bydd y Llysgenhadon yn mynd i glybiau ieuenctid a grwpiau ieuenctid ym mis Chwefror er mwyn cynnal grwpiau ffocws a dod o hyd i gyfranogwyr ar gyfer y ffilm.<br>2. Mae diwrnodau ymgysylltu cymunedol wedi parhau'n rhithwir lle mae'r Comisiynydd yn canolbwyntio ar bynciau gwahanol:<br>• Tachwedd – Iechyd Meddwl, lle y cyfarfu CHTh â sawl sefydliad sy'n cynnig cymorth iechyd meddwl.<br>• Ionawr – Diogelwch y Ffyrdd, a oedd yn cynnwys lansio'r ymgyrch Cymru gyfan '5 Angheuol' mewn partneriaeth â GanBwyll. |

partner, a thrafod cydweithio posibl yn y dyfodol.

2. Mae Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol dal yn cael eu cynnal. Roedd diwrnod mis Hydref fod yn ymagwedd croesiad, gyda rhan ohono'n cael ei gynnal yn rhithwir a rhan ohono wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau sy'n parhau o ran COVID-19 a chyfyngiadau symud lleol ac ati wedi rhwystro'r elfen wyneb yn wyneb. Bydd Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol Rhithwir yn parhau ar sail fisol.
3. Darllediad pythefnosol newydd yn fyw ar Facebook yw "Clonc gyda'r Comisiynydd" lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cyfweld ag unigolion amrywiol. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf gyda'r Prif Gwnstabl. Gwyliodd 60 unigolyn y darllediad byw, a gwyliodd 3500 y sgwrs ar alw. Yn y sesiwn nesaf, bydd CHTh yn sgwrsio gyda'r Uwch-arolygydd Ifan Charles.
4. Mae CHTh dal yn codi pryderon lleol gyda'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r defnydd o safle Penalun ar gyfer ceiswyr lloches. Mae staff SCHTh hefyd yn ymgysylltu â phartneriaid Diogelwch Cymunedol er mwyn monitro tensiynau cymunedol ym Mhenalun a mynd i'r afael â nhw.
5. Lansiwyd ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr ym mis Medi. Derbyniwyd tri chais ar gyfer y

- Bydd ffocws mis Chwefror ar y rhaglen atal trosedd Strydoedd Mwy Diogel yn ardal Llanelli, lle bydd CHTh yn cwrdd â phartneriaid sy'n cefnogi'r rhaglen.

3. Parhaodd Sgwrs Gyda'r Comisiynydd ar sail bythefnosol drwy gydol mis Hydref, mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Roedd siaradwyr gwadd yn cynnwys y Prif Gwnstabl Mark Collins, y Dirprwy Brif Gwnstabl Claire Parmenter, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Emma Ackland, yr Uwch-arolygydd Ifan Charles a Steve Moore, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Gwyliwyd pob sgwrs gan filoedd o bobl, sydd wedi arwain at gynnydd yn nilynwyr tudalen Facebook SCHTh.
   Ers mis Ionawr 2021, mae'r sesiynau hyn wedi'u cynnal yn wythnosol, a byddant yn parhau i gael eu cynnal yn wythnosol hyd at y cyfnod o enciliad. Mae siaradwyr gwadd wedi cynnwys Teresa Ciano o GanBwyll Cymru, Mark Travis, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru, sef Arweinydd Cymru ar Ddiogelwch y Ffyrdd, yr Uwch-arolygydd Robyn Mason, Adam Whitehouse o Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, a Tom Evans, Caplan yr Heddlu.
4. Yn dilyn cyfarfod adeiladol rhwng CHTh a'r Prif Arolygydd Annibynnol Ffiniau a Mewnfudo ar 5 Ionawr 2021, a gohebiaeth ddilynol ar 14 Ionawr 2021, cyhoeddwyd yn ddiweddar y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r defnydd o westai a gwersylltai fel llety wrth gefn ar gyfer mewnfudwyr, gan gynnwys Gwersyll Penalun yn Sir Benfro. Mae'r

| | |
|---|---|
| cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, a thri chais i fod yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Serch hynny, mae nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd dal yn isel oherwydd nifer o ymddiswyddiadau o ganlyniad i'r pandemig. Estynnir yr ymgyrch recriwtio ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd drwy gydol mis Hydref.<br>6. Mae cylchlythyr y Comisiynydd dal yn rhoi diweddariad am waith y swyddfa bob yn ail fis. Cyhoeddir y cylchgrawn ar wefan SCHTh. Mae'n cael ei hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'i ddosbarthu i' danysgrifwyr. | Arolygydd wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth, a fydd yn aros ar agor tan 19 Chwefror.<br>5. Parhaodd ymgyrch recriwtio gwirfoddolwr drwy gydol mis Hydref. Mae dau ymwelydd annibynnol â dalfeydd yn disgwyl cliriad fetio, ac mae dau'n disgwyl hyfforddiant ymgynefino, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 25 Chwefror. Mae nifer yr aelodau dal yn isel yn ardal Ceredigion ar gyfer y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, felly bydd ymgyrch recriwtio ar gyfer yr ardal hon yn cael ei lansio fis Chwefror 2021. Mae un unigolyn hefyd yn disgwyl cliriad fetio ar gyfer Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd, a phenodwyd aelod newydd ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2021. Bydd yn cychwyn ar ôl i dymor mewn swydd aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio ddod i ben.<br>6. Mae cylchlythyr y Comisiynydd dal yn rhoi diweddariadau ar waith CHTh a SCHTh bob yn ail fis. Cyhoeddir y cylchgrawn ar wefan CHTh, fe'i hyrwyddir ar gyfryngau cymdeithasol, fe'i rhennir ymysg tanysgrifwyr, ac mae copïau caled ar gael ar gais. |

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**19 CHWEFROR 2021**

| **PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD** |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br><br>1. Craffu ar berfformiad y Comisiynydd<br>2. Gwneud argymhellion i'r Comisiynydd fel y gwêl y Panel yn briodol |
| **Y Rhesymau:**<br><br>Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn nodi sut y bydd swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cael eu harfer mewn perthynas â'i gilydd |

| Awdur yr Adroddiad: | Swyddi: | Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| R J Edgecombe | Swyddog Arweiniol i'r Panel | rjedgeco@sirgar.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 19TH FEBRUARY 2021

| POLICING PROTOCOL – PERFORMANCE REPORT | |
|---|---|
| Section 79 of the Police Reform and Social responsibility Act 2011 requires the Secretary of State to issue a Policing Protocol , the purpose of which is to set out how the functions of Police and Crime Commissioner and Chief constable are to be exercised in relation to each other.<br><br>Paragraph 17 of the Protocol sets out the legal powers and duties of the Commissioner, namely:<br>(a) set the strategic direction and objectives of the force through the Police and Crime Plan (―the Plan‖), which must have regard to the Strategic Policing Requirement set by the Home Secretary;<br>(b) scrutinise, support and challenge the overall performance of the force including against the priorities agreed within the Plan;<br>(c) hold the Chief Constable to account for the performance of the force‘s officers and staff;<br>(d) decide the budget, allocating assets and funds to the Chief Constable; and set the precept for the force area;<br>(e) appoint the Chief Constable (except in London where the appointment is made by the Queen on the recommendation of the Home Secretary);<br>(f) remove the Chief Constable subject to following the process set out in Part 2 of Schedule 8 to the 2011 Act and regulations made under section 50 of the Police Act 1996(a);<br>(g) maintain an efficient and effective police force for the police area;<br>(h) enter into collaboration agreements with other PCCs, other policing bodies and partners that improve the efficiency or effectiveness of policing for one or more policing bodies or police forces in consultation with the Chief Constable (where this relates to the functions of the police force, then it must be with the agreement of the Chief Constable);<br>(i) provide the local link between the police and communities, working to translate the legitimate desires and aspirations of the public into action;<br>(j) hold the Chief Constable to account for the exercise of the functions of the office of Chief Constable and the functions of the persons under the direction and control of the Chief Constable;<br>(k) publish information specified by the Secretary of State and information that the PCC considers necessary to enable the people who live in the force area to assess the performance of the PCC and Chief Constable;<br>(l) comply with all reasonable formal requests from the Panel to attend their meetings;<br>(m) prepare and issue an annual report to the Panel on the PCC‘s delivery against the objectives set within the Plan;<br>(n) monitor all complaints made against officers and staff, whilst having responsibility for complaints against the Chief Constable.<br><br>The attached report sets out the Commissioner’s performance against these powers and duties | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **YES** |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# IMPLICATIONS

| **I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**<br><br>**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**<br>**List of Background Papers used in the preparation of this report:**<br><br>**THESE ARE DETAILED BELOW** | | |
|---|---|---|
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| **Host Authority File** | **PACP020** | **County Hall Carmarthen** |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011

## Chwarter 3 2020/21 Crynodeb o Adroddiad Perfformiad

**Cyflwyniad**

Mae Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pob ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt dros y plismona cyfan yn eu hardal. Mae gofyn iddynt ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflenwad gweithredol y plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn gofyn i’r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy’n gymwys i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Amlinella’r protocol hwn rolau a chyfrifoldebau pawb sy’n gysylltiedig â’r berthynas bedair rhan, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a’r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob un o’r grwpiau yn cadw at y 7 egwyddor a amlinellir yn y Safonau Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y grwpiau hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i’r berthynas rhyngddynt a bydd pob grŵp yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud i’r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy’n cwmpasu’r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae hyn gyfwerth â 21 maes sydd wedi’u torri i lawr i 57 ardal weithredu yn ôl amryw feysydd busnes o fewn SCHTh, y mae 4 ohonynt wedi’u nodi’n barhaol yn Amherthnasol sy’n gadael 53 o feysydd gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Mae pob adran yn derbyn sgôr CAG i dynnu sylw at unrhyw feysydd pryder.

Gwyrdd – Cydymffurfio’n llawn, dim gwaith ychwanegol yn angenrheidiol

Ambr – Cydymffurfio’n rhannol, ychydig o waith ychwanegol yn angenrheidiol

Coch – Ddim yn cydymffurfio, nid yw’r ddyletswydd yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae crynodeb o’r gwiriad iechyd ar gael i’r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o’r chwarter diwethaf.

**Crynodeb Gweithredol**


Mae’r adroddiad a ganlyn yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch3 y flwyddyn ariannol 2020/21 (Hydref/Tachwedd/Rhagfyr 2020)

<u>Cymhariaeth statws CAG</u>

**Crynodeb:**


O’r 53 maes gweithredu:

| | | |
|---|---|---|
| Coch | 0 | 0% |
| Ambr | 14 | 26% |
| Gwyrdd | 39 | 74% |




Does **DIM UN** o'r meysydd gweithredu wedi'u marcio'n goch.

Mae nifer y categorïau gwyrdd ac ambr wedi newid ychydig bach ers y chwarter diwethaf, gyda gwyrdd yn gostwng o 2 ac ambr yn cynyddu o 2. Mae arweinwyr busnes dal yn adolygu statws CAG eu meysydd yn agos.




Mae pob maes  yn cydymffurfio’n rhannol o leiaf, gyda rhai categorïau’n sefyll allan fel rhai sydd angen mwy o sylw oherwydd y canran o ambr o fewn y categori:

17f - Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, a chyrff a phartneriaid plismona eraill - (2/3) 67% ambr

17ff - Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith - (4/5) 80% ambr

20a - Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd - (1/2) 50% ambr

| Dyletswydd | Rhif | Camau sy'n Ofynnol | Statws CAG | Diweddariad Cynnydd Ch3 (Hyd/Tach/Rhag 2020) |
|---|---|---|---|---|
| Gosod cyfeiriad strategol ac amcanion yr Heddlu trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gorfod ystyried y Gofyniad Plismona Strategol | 17a | Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7) | | Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Yn 2018, penderfynodd CHTh bod y Cynllun digon eang ei fod dal yn berthnasol ar gyfer hyd tymor y Cynllun. Yn dilyn y cyhoeddiad ynglŷn â gohirio'r etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ceisiwyd a chafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddu i estyn hyd tymor y Cynllun Heddlu a Throseddu o flwyddyn arall.<br>21.07.2020 - Cymeradwyodd Tîm Gweithredol SCHTh amserlen waith ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf.<br>16.10.2020 – Cyfarfod cwmpasu cychwynnol ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf. Roedd swyddogion o'r Heddlu a SCHTh yn rhan o'r cyfarfod. Cynhwyswyd cwestiynau blaenoriaethau plismona yn yr holiadur praesept ym mis Rhagfyr 2020, cyn ymagwedd ymgynghorol fwy gwybodus, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. |
| | | Datblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu | | Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017 ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu. Mae cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n canolbwyntio ar bob un o ganlyniadau arfaethedig y Cynllun er mwyn monitro cyflenwi'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun wedi'i estyn yn ffurfiol i 2022, yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae trafodaethau cychwynnol gyda Phrif Swyddogion wedi nodi y byddent yn cefnogi tynnu tîm at ei gilydd ar y cyd â SCHTh i ddatblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu er mwyn cefnogi cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn 2022. |
| | | Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben | | Mae'r Panel Heddlu a Throseddu wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddu; gan geisio barnau gan Awdurdodau Lleol ar p'un a yw'r Cynllun yn parhau yn addas i'r diben ac a yw'n cynnwys yn briodol natur y bygythiadau i'n cymunedau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 15 Chwefror 2019, pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon eang iddo barhau yn addas i'r diben. Ym mis Mawrth 2020, cafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddu i estyn y Cynllun flwyddyn arall, yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. |
| Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun | 17b | Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol | | Mae trefniadau craffu ffurfiol mewn grym ac yn parhau yn ystod yr argyfwng COVID-19. Ar ben hynny, cynhwysir cynrychiolwyr CHTh yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer COVID-19, gan sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth lawn am y pwysau sydd ar y sefydliad a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae adolygiad o drefniadau llywodraethu'r heddlu'n mynd rhagddo. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd Plismona ar 09.09.2020, lle y cytunwyd y byddai SCHTh yn chwarae mwy o ran ar gyfer cynorthwyo â threfniadau llunio, yn arbennig o safbwynt partneriaeth, er mwyn cefnogi craffu effeithiol ymhellach. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a'r gobaith yw y bydd trefniadau llywodraethu'r heddlu'n cael eu ffurfioli cyn hir. Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth SCHTh priodol, mae ymarfer cwmpasu'n cael ei gynnal er mwyn rhoi eglurder ynghylch presenoldeb a rôl SCHTh ym mhob grŵp e.e. cyfrannwr, craffu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol | | Mae'r FfLIC yn cael ei adolygu'n barhaus, a bydd adolygiad blynyddol ffurfiol yn cael ei gynnal yn ystod y chwarter nesaf. |
| | | Sefydlu amserlen flaengar o weithgareddau ar sail risg i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu | | Mae gweithgarwch craffu rhithwir ffurfiol wedi parhau'n llwyddiannus drwy gydol y chwarter. Mae'r Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys wedi dod yn fwy effeithlon o ganlyniad i gyfarfodydd rhithwir, gyda rhai canlyniadau effeithiol o ran gyrru gwelliannau mewn arferion cofnodi a chyfeiriadau at y cynllun dargyfeiriol a gomisiynir gan y CHTh. Er waethaf rhai heriau technegol, ymgymerodd y Panel SA ag adolygiad llwyddiannus o gofnodion Stopio a Chwilio dros Skype. Mae'r argymhellion hyn wedi'u bwydo i mewn i Grŵp Aur gwella Stopio a Chwilio'r Heddlu. Mae staff SCHTh yn gweithio'n agos â'r grŵp hwn er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion AHEM parhaus yn y maes hwn. |
| | | Sicrhau bod barnau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yng ngwaith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | | Mae llawer o gyfrifoldebau craffu CHTh wedi'u rhyddhau'r chwarter hwn drwy sicrwydd ac arsylwi â ffocws mewnol drwy strwythur llywodraethu'r heddlu a monitro'n seiliedig ar ddesg e.e. Penalun/Hysbysiadau Cosb Benodedig COVID-19/perfformiad yr heddlu a phrosiectau mawr megis y prosiect cyflawn. |
| | | Trosolwg a gweithrediad ar argymhellion arolygiaethau allanol | | Dim yn ddyledus.<br>12/11/20 Archwiliad o berthynas yr ATC gydag unedau troseddu trefnedig rhanbarthol – yn ddyledus 07/01/21. Dim cofnodion.<br>Cyflwynwyd ymateb i alwad arweinydd IM CCHTh am dystiolaeth ar effaith COVID-19 ar alw IM. |
| Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu | 17c | Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu | | Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, yn 2018, datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt.<br>Mae'r gwiriad iechyd nawr yn cael ei wirio bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod dal yn berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes adlewyrchu ar gofnodion blaenorol a newid adrodd yn ôl yr angen. |
| | | Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff | | Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol mewn grym, gan gynnwys Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, sef cyfarfod cyhoeddus lle mae CHTh yn dal y PG i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob 3 wythnos sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae eitemau sefydlog ar yr agenda'n cynnwys Cyllid ac AD Strategol. Mae trefniadau llywodraethu'n parhau yn ystod yr argyfwng COVID-19, gyda ffocws cryf ar barodrwydd sefydliadol ac effaith COVID-19. |
| | | Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl | | Rhoddwyd llythyr ffurfiol yn rhoi manylion am amcanion i'r Prif Gwnstabl Dros Dros Claire Parmenter ar 25.01.21, a fydd yn cael ei ddilyn gan drafodaeth fanwl ar 25.02.21 cyn i'r Prif Gwnstabl Dros Dro gychwyn ei swydd. Y prif ffocws yw sicrhau bod y cyhoedd wrth galon popeth a wnawn a phob penderfyniad a wneir. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Penderfynu ar y gyllideb, neilltuo asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu | 17ch | Hysbysu penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r praesept | | Parhaodd gwaith adolygu manwl yn ystod 2019/20 gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r CHTh er mwyn hysbysu ei ystyriaethau mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys nifer o drafodaethau gyda Phrif Swyddogion a seminar lle'r oedd y CHTh, aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ac aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu'n bresennol. Yn y seminar, soniodd y PG a'r CA am sefyllfa gyfredol yr heddlu a'r heriau disgwyliedig ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a arweiniodd at ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 20/21-25/26, y Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Chronfeydd Wrth Gefn. Cefnogwyd cynnig CHTh ar gyfer praesept 2020/21 yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throseddu. |
| | | Gosod y cynllun ariannol tymor Canolig | | Cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei osod a'i ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2020 a'i gefnogi'n unfrydol gan yr aelodau Panel. |
| | | Ariannu rhaglen gyfalaf i roi asedau priodol i'r heddlu i gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol | | Cyflawnwyd gwaith manwl yn 2019/20 i ystyried a datblygu rhaglen gyfalaf tymor hirach (10 mlynedd) a oedd yn ffurfio rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig, y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21. Ystyriodd y Panel Heddlu a Throseddu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Chwefror 2020. Cefnogwyd y cynllun yn unfrydol gan yr aelodau. |
| Penodi'r Prif Gwnstabl | 17d | Penodi'r Prif Gwnstabl | | Cyfeirier at gofnod penderfyniad DLL 196. Â'r Prif Gwnstabl Mark Collins yn nodi ei fwriad i ymddeol, bu'n rhaid ystyried arweinyddiaeth Heddlu Dyfed-Powys yn y dyfodol. Â'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu mor agos (Mai 2021), ceisiwyd cyngor gan y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac Aelod Annibynnol profiadol ar gyfer Penodiadau Prif Swyddogion - rôl a nodir yng Nghylchlythyr 13/2018 y Swyddfa Gartref. Mae'r Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Aelod Annibynnol yn gytûn fod pwysigrwydd y berthynas rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn golygu y dylai'r penderfyniad i benodi Prif Gwnstabl parhaol gael ei wneud gan y Comisiynydd etholedig yn dilyn etholiad mis Mai. Er mwyn darparu sefydlogrwydd a chysondeb o fewn y sefydliad, cynigir fod y Dirprwy Brif Gwnstabl Claire Parmenter yn dod yn Brif Gwnstabl Dros Dro am hyd at 12 mis. |
| Diswyddo'r Prif Gwnstabl | 17dd | Dilyn proses a amlinellir yn Rhan 2 Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 Deddf yr Heddlu 1996(a) | | |
| Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu | 17e | Sicrhau Gwerth am Arian | | Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u gwreiddio drwyddi draw'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwiliadau Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrwydd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn nefnydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl o adnoddau. Yn ogystal, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad gwerth am arian penodol ar drefniadau cydweithio, sydd wedi gwneud nifer o argymhellion. Mae'r PSA yn cymryd rhan yn nifer o gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu sydd yn ystyried agweddau gwerth am arian yn rheolaidd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cydymffurfiad statudol ystadau yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer defnydd gweithredol | | Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae ein cydymffurfiaeth statudol dal yn cynyddu, ac wrth i'r profi trydanol penodol ddod i ben, mae'r ffigwr yn dal i ddringo. Mae'r gwaith Asesu Risg Tân yn cael ei gynllunio gan yr Adran Iechyd a Diogelwch, ac mae rhaglen o archwiliadau wedi'i rhwystro gan gyfyngiadau COVID-19, fodd bynnag, mae'r adroddiadau canlyniadol ar ddod a bydd y lefel perfformiad yn cynyddu'n aruthrol. Yn fwyaf nodedig, bu cynnydd graddol o'r perfformiad ffabrig ar archebion gwaith. Rhain yw'r ffigurau perfformiad ar gyfer yr elfen llafur uniongyrchol, sydd wedi cynyddu'n raddol dros y misoedd diwethaf. |
| | | Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith amgylcheddol | | Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd wedi'i adfer yn awr, ac mae wrthi'n cynllunio Strategaeth Amgylcheddol 5 mlynedd.<br><br>Mae costau trydanol wedi lleihau'n sylweddol yn ystod Chwarter 3. Bu lefel COVID-19 yn uwch, ac o'r herwydd, yr ydym yn gweld gostyngiad sylweddol mewn costau o ganlyniad i nifer o aelodau staff yn dychwelyd i weithio gartref er mwyn cynnal ymbellhau cymdeithasol yn dilyn canllawiau'r llywodraeth a chyflwyno'r cyfyngiadau symud cenedlaethol. Mae ein costau misol ar gyfer trydan wedi gostwng bron 15% ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. |
| | | Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd ariannu allanol | | Yr ydym yn parhau i weithio gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn datblygu prosiectau o dan y buddsoddiad cychwynnol. |
| | | Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd menter nawdd | | Mae cyfleoedd nawdd dal yn cael eu ceisio ar draws yr ardal heddlu, ond mae hyn wedi arafu oherwydd y sefyllfa bresennol o ran COVID-19. |
| | | Gweithredu a chynnal cofrestr risg i adnabod a lliniaru ar risgiau i'r SCHTh a'r heddlu | | Mae cofrestr risg SCHTh yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac adroddir arni wrth y tîm gweithredol ar sail fisol er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybod am yr holl ddiweddariadau a meysydd sy'n achosi pryder.<br>Mae'r Rheolwr Perfformiad a Chydymffurfiaeth mewn cysylltiad rheolaidd ag Ymgynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes yr Heddlu, ac mae protocol yn cael ei ysgrifennu yn awr er mwyn sicrhau bod rhannu risgiau rhwng yr heddlu a SCHTh yn drefniant mwy ffurfiol. |
| | | Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh | | Mae cyllideb hyfforddi penodol yn bodoli er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol a nodir drwy'r Proffil Datblygu ac Asesu. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a chynnydd o ran cyfleoedd datblygu ar-lein am ddim yn ystod 2020/21, bu rhywfaint o danwariant ar hyn yn ystod y flwyddyn. Anrhydeddir unrhyw gyfleoedd datblygu sy'n aros yn 2021/22 lle bo'n berthnasol. |
| Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, a chyrff a phartneriaid plismona eraill | 17f | Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth Blismona ar gyfer Cymru | | Mae cydweithio'n gadarn ar agenda GPCG. Mae Archwilio Cymru wedi adolygu cydweithio er mwyn pennu pa un ai a yw'r mwyaf yn cael ei wneud o gyfleoedd cydweithio, a pha un ai a oes modd gwneud mwy. Ystyriwyd adroddiad mewn cyfarfod Plismona yng Nghymru ym mis Medi 2020, sy'n cael ei gefnogi gan gynllun gweithredu a fydd yn cael ei fonitro. |
| | | Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill | | Yr ydym yng nghamau olaf gweithredu'r prosiect Strydoedd Mwy Diogel, a byddwn yn edrych ar gyflwyno ail gais ar gyfer ail gylch y gronfa. Yn ddiweddar, derbyniom £880,000 ar gyfer ariannu Salix i edrych ar wella cynaliadwyedd amgylcheddol ein hystadau, ac mae cynnig pellach ar gyfer tua £2 filiwn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hefyd wedi'i gyflwyno i Salix er mwyn parhau â'r thema hon ar draws adeiladau HDP. Yr ydym yn disgwyl y canlyniadau. |
| | | | | |
| | | Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i graffu ar gytundebau cydweithio. | | Daeth y CHTh Llywelyn yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019, ac mae wedi cyflwyno strwythur newydd er mwyn cefnogi craffu ar drefniadau cydweithio. Mae'r ymagwedd newydd hon yn sicrhau ymagwedd thematig a chanolbwyntiedig tuag at graffu ar gydweithio. Mae Blaenraglen Waith mewn grym ar gyfer tymor CHTh fel cadeirydd i graffu ar amrediad o drefniadau cydweithio. Wrth drosglwyddo i SCHTh De Cymru ym mis Gorffennaf 2020, cytunwyd y dylai'r trefniadau presennol aros, ac y dylid eu cryfhau ymhellach. |
| | | | | |
| Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith | 17ff | Gweithio gyda'r Heddlu i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd, gan fodloni'r amcanion ynddo. | | Yr ydym yn adolygu ein hymagwedd tuag at ymgysylltu a cyfathrebu â'r cyhoedd yn rheolaidd, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn ein Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu a chanllawiau'r Llywodraeth / y sefyllfa COVID-19 leol.<br>Yr ydym wedi gweithredu'r ymagwedd a amlinellir o fewn ein Cynllun Gweithredu. Ni fyddwn yn cyhoeddi'r ddogfen yn ffurfiol gan mai dogfen weithio ydyw ar gyfer staff SCHTh, i'w hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, er mwyn cefnogi'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu, sydd eisoes wedi'i chyhoeddi.<br>Recriwtiom Lysgenhadol Ifainc newydd ar gyfer y Fforwm Ieuenctid ym mis Hydref, gan gynyddu cyfleoedd i bobl ifainc lleol fod yn rhan o graffu ar wasanaethau'r heddlu a dylanwadu ar benderfyniadau. Cyfarfu ein 13 Llysgennad Ifanc â'r CHTh ddwywaith yn ystod Ch3, a gofynnwyd iddynt am adborth ar Hafan Ar-lein Unigol newydd HDP, a gweithgareddau megis cynnwys pobl ifainc ym mhecynnau hyfforddi HDP.<br>Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ar gael ar wefan CHTh, a chychwynnodd gweithgareddau ymgysylltu drwy'r fforwm hwn yn ystod Ch3. Ym mis Hydref/Tachwedd, gofynnwyd i unigolion ar ein cronfa ddata adolygu a rhoi adborth ar Becyn Gwybodaeth HDP ar gyfer Dioddefwyr. Cyflwynwyd adroddiad i HDP a oedd yn cynnwys 3 argymhelliad: (1) adolygu'r Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Dioddefwyr; (2) gweithio ochr yn ochr â dioddefwyr wrth ei adolygu; a (3) ystyried fformatau mwy hygyrch. Mae gwaith ar hyn yn parhau i mewn i Ch4. Gofynnwyd i aelodau o'n cronfa ddata gymryd rhan mewn arolwg ar y broses cyfiawnder adferol. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn Ch4 er ystyriaeth. Mae tudalen we wedi ei datblygu ar gyfer y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr a bydd y Fforwm yn cael ei hyrwyddo'n ehangach yn ystod Ch4.<br>Lansiodd CHTh ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau plismona a'r praesept ar gyfer 2021/22. Yn ystod Ch4, bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried yn fanwl er mwyn cynorthwyo â chynllunio'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf, a cynorthwyo CHTh i wneud penderfyniadau o gwmpas gosod y praesept heddlu.<br>Roedd cyfarfodydd cyhoeddus dal yn cael eu cynnal, â materion lleol / materion plismona'n cael eu dwyn i sylw CHTh. Cynhaliwyd cyfarfodydd fel rhan o Ddiwrnodau Ymgysylltu CHTh ac fel sesiynau ar wahân. Sicrhaom fod aelod o'r tîm yn mynd gyda'r CHTh i'r cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd mewn ymateb i Wersyll y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym Mhenalun yn cael ei ddefnyddio fel llety dros dro ar gyfer ceiswyr lloches, er mwyn sicrhau y gallai'r gymuned leol fynegi unrhyw bryderon mewn perthynas â materion plismona sy'n gysylltiedig â'r gwersyll.<br>Parhaom i gyhoeddi "Uchafbwyntiau'r Wythnos..." CHTh ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith CHTh yn rheolaidd.<br>Cyhoeddwyd rhifyn mis Tachwedd o gylchlythyr CHTh, a oedd yn cynnwys diweddariadau ynghylch sawl prosiect, megis y fenter Strydoedd Mwy Diogel a chyllidebu cyfranogol; diweddariadau ystadau; a gwaith y Fforymau Dioddefwyr ac Ymgysylltu â Phobl Ifainc.<br>Cynhaliodd CHTh ddiwrnod ymgysylltu rhithwir a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau iechyd meddwl. Ceir hanes y gweithgareddau hyn yng nghylchlythyr Ionawr 2021 er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am yr holl wasanaethau a thrafodaethau.<br>Lansiodd CHTh ei ddarllediadau "Sgwrs Gyda'r Comisiynydd" yn fyw ar Facebook. Cynhalwiyd rhain bob yn ail wythnos. Trafodaethau anffurfiol oeddent rhwng CHTh a'i westeion, gan gynnwys y Prif Gwnstabl, yr Uwch-arolygydd Ifan Charles, y DBG, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Steve Moore, a'r PGC. Rhoddodd pob sgwrs fewnwelediad i'r cyhoedd i ardaloedd arbenigedd amrywiol yr heddlu a phartneriaid. Roedd gan y cyhoedd gyfle i ddweud eu dweud a holi cwestiynau.<br>Cyhoeddom a rhannom 16 o ddatganiadau i'r wasg, gan roi diweddariadau a gwybodaeth hollbwysig i'r cyhoedd.<br>Cyhoeddwyd sawl un o'r rhain yn y wasg leol, gan arwain at gyfweliadau ar gyfer CHTh ar raglenni newyddion cenedlaethol gan gynnwys S4C, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.<br>Yr ydym yn parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgyrchoedd lleol/cenedlaethol sy'n berthnasol i waith CHTh/HDP, megis wythnos cyfiawnder adferol, yr ymgyrch rhuban gwyn, ac wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb. Mae hon yn sianel ychwanegol inni gyfathrebu ac ymgysylltu ar sail ddyddiol â phartneriaid a'n cymunedau lleol.<br>Yn ystod Ch3, gwelsom dwf raddol yn nifer y dilynwyr ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, â darllediadau byw Sgwrs Gyda'r Comisiynydd yn cyfeirio cynulleidfa ehangach i'n tudalennau. |
| | | | | |
| | | Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh, gan gynnwys cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau | | Yn ystod Ch3, derbyniwyd Llysgenhadon Ifainc newydd i'n Fforwm Ieuenctid, sy'n cynrychioli ein cymunedau.<br>Aeth ein Swyddog Ymgysylltu gyda'r CHTh i "lansiad meddal" menter ymwybyddiaeth anabledd Access Cymru, gan ddatblygu'r bartneriaeth barhaus hon ymhellach. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn Ch4, gyda chysylltiad diweddar Hygyrchedd Powys.<br>Datblygom ein cysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd sydd wedi'u heffeithio gan drosedd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhellach, ac rydym nawr yn clywed yn rheolaidd gan aelodau o'n cymunedau sy'n agored i niwed drwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr.<br>Mae Ymgynghorydd Ymgysylltu CHTh dal yn mynd i'r Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth (cynhaliwyd un cyfarfod yn ystod Ch3) lle y mae'n cael ei ddiweddaru ynghylch gwaith yr heddlu o gwmpas sicrhau bod gan ein cymunedau lais mewn plismona. Trafodir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd, ac mae'r Ymgynghorydd yn rhoi diweddariadau ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â SCHTh.<br>Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref, roedd CHTh yn gysylltiedig â weminar fyw ar gyfer pobl ifainc: Cyfle i drafod ac adnabod y gwahanol ffurfiau o droseddau casineb sy'n effeithio ar bobl, sut y gallant waethygu'n aml i droseddau neu densiwn mewn cymuned, a sut y mae digwyddiadau'n cael eu hadrodd a'u trin gan yr heddlu a sefydliadau. Hefyd, cynhaliom arolwg ar ymwybyddiaeth troseddau casineb. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu bwydo yn ôl i gydweithwyr yn HDP drwy'r Grŵp |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb a'r Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth.<br>Yr ydym wedi parhau â'n hymagwedd ddigidol tuag at ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gydol Ch2 tra bod y pandemig yn parhau. Yr ydym yn adolygu ac yn diweddaru Cofrestr Risg SCHTh yn rheolaidd o ran sut y bydd ymgysylltu / cyfathrebu drwy ddulliau digidol yn unig yn golygu na fydd gan rai cymunedau lleol gymaint o gyfle i ymgysylltu â'r CHTh yn yr amgylchedd bresennol. Yr ydym yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu digidol drwy'r wasg yn y gobaith y bydd yn cyrraedd y gymuned ehangach, gan sicrhau ein bod ni'n hyrwyddo'r ffaith y gall preswylwyr ddefnyddio eu ffonau i ymuno â thrafodaethau ar-lein.<br>Yn ystod Ch3, wrth ymgynghori, megis cynnal yr arolwg praesept/blaenoriaethau a gwaith ymgysylltu â dioddefwyr, fe wnaethom gynnig y cyfle i siarad ag aelod tîm ar y ffôn. Sicrhaodd hyn fod y rhai sydd heb y dechnoleg a/neu'r hyder i ymuno â thrafodaethau ar-lein dal yn medru rhoi eu barn a rhoi adborth.<br>Aethpwyd i nifer bach o weithgareddau wyneb yn wyneb yn ystod Ch3 pan oedd canllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu, gan alluogi'r gymuned i ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r CHTh. Er enghraifft, aeth CHTh a'r Ymgynghorydd Ymgysylltu i lansiad menter 'Kicks' Uwch-gynghrair yn Noc Penfro, sef menter a ariennir gan y CHTh.<br>Byddwn yn parhau i addasu a datblygu ein hymagwedd ymgysylltu, gan ddibynnu ar gyfyngiadau lleol a newidiadau o ran y pandemig. Drwy gydol y pandemig, yr ydym yn parhau i gynnwys gwybodaeth ar ein gwefan a'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â sut y gall y cyhoedd a chynrychiolwyr cymunedol gysylltu â'r CHTh a'i dîm yn ystod y cyfnod hwn.<br>Fel tîm, yr ydym bob amser yn edrych ar ddod o hyd i fformatau cyfathrebu amgen er mwyn sicrhau y gall y gynulleidfa ehangach gael mynediad at wybodaeth am waith CHTh. Gall y cyhoedd gysylltu â ni / ymgysylltu â'r CHTh dros y ffôn, drwy lythyr, drwy e-bost, a thrwy fforymau ar-lein.<br>Mae cylchlythyr CHTh ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn electronig ac ar bapur.<br>Anfonir pob datganiad i'r wasg gan y CHTh i bob cyswllt yn y cyfryngau sydd, yn eu tro, yn cyhoeddi ein newyddion yn electronig ac mewn papurau newydd. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi ein datganiadau i'r wasg ar ein gwefan ac yn cyfeirio ein dilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol i erthyglau ar-lein drwy ein negeseuon. |
| | | | | |
| | | Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd prydlon | | Dim sylwadau. |
| | | | | |
| | | Ennyn diddordeb preswylwyr mewn cyfrannu at weithgaredd sicrwydd a chraffu | | Mae SCHTh yn hap samplu cofnodion dalfa bob yn ail wythnos er mwyn cynnal goruchwyliaeth o ddalfeydd. Mae SCHTh nawr yn ateb holiaduron misol y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd hefyd, sy'n seiliedig ar faterion COVID-19 yn y ddalfa. Yn dilyn penderfyniad yn y Bwrdd Plisona ar 5 Hydref , cyflwynwyd rota cymysg o alwadau ffôn ac ymweliadau corfforol gan ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, gan gynnal ymweliadau corfforol a galwadau ffôn bob yn ail. Roedd rota galwadau ffôn yn unig ar gyfer Rhydaman ar gais tîm ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yr ardal honno. Ar 21 Rhagfyr, dychwelwyd i alwadau ffôn yn unig gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd oherwydd y cyfyngiadau symud. Mae 16 ymwelwydd annibynnol â dalfeydd yn weithredol, a 5 arall ar ein llyfrau sydd ddim yn cymryd rhan yn y cynllun ar hyn o bryd oherwydd y pandemig. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae 4 ymwelydd annibynnol â dalfeydd newydd ac un aelod newydd o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn cael eu fetio. Unwaith y bydd rhain wedi derbyn cliriad fetio a'r 5 ymwelydd annibynnol â dalfeydd anweithredol yn ailgychwyn ar ôl i'r cyfyngiadau COVID-19 lacio, dylai nifer y gwirfoddolwyr ddychwelyd i tua 92%. |
| | | | | |
| | | Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddioddefwyr a phobl fregus | | Cyflwynwyd dychweliad data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y cyfnod chwe mis cyntaf. Mae'r holl wasanaethau a gomisiynir yn dangos canlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Bydd prosesau cwyno ar gyfer yr holl wasanaethau a gomisiynir yn ffurfio rhan o gylch archwilio blynyddol.<br><br>Ni werthuswyd unrhyw dendrau yn ystod y chwarter hwn ond mae cwestiynau craidd yn parhau mewn templed.<br><br>Oherwydd effaith COVID-19, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gofyn am ddychweliad data ar gyfer 2020/21 eto. Nid yw'n hysbys pa un ai a fydd angen hyn. Mae rhai partneriaid wedi parhau i gipio data yn ystod y flwyddyn, ond mae sawl un wedi stopio cipio data oherwydd effaith COVID-19 (e.e. llysoedd ddim yn eistedd, felly does dim data ar gael mewn perthynas â'r defnydd o Ddatganiadau Personol Dioddefwyr ac ati). Mae'r Cod Ymarfer Dioddefwyr fod cael ei ail-lansio ym mis Ebrill 2021, gyda chanllawiau newydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â chasglu data. |
| | | | | |
| Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rheini o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth | 17g | Fel y nodir yn 17c | | |
| | | | | |
